

CYDBWYLLGOR CRAFFU

DYDD LLUN, 19 TACHWEDD 2018

Yn
bressenol: Cynghorydd (Cadeirydd)

Cynghorwyr Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Howells, Owen Jones, Lancaster, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Patel, Robson, Sattar, Simmons, Stubbs, Wong a/ac Wood

5 : CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Ramesh Patel yn Gadeirydd y Cydbwyllgor Craffu.

6 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Bob Derbyshire.

7 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

8 : GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS - RHEOLI CŴN

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury, yr Aelod cabinet dros Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Michael Michael, yr Aeloda Cabinet dros Strydoedd Glan, Ailgylchu a'r Amgylchedd, Matt Wakelam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – y Strydlun, Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, Seilwaith a Gweithrediadau a Jon Maidment, Rheolwr Gweithredol dros Barciau, Chwaraeon a'r Harbwr l'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddent yn cael cyfle i gwestiynu'r Aelodau Cabinet a'r swyddog o'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd; byddai'r Cadeirydd yn gwahodd datganiadau llafar gan y Cynghorwyr, aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y cyfarfod; byddai Aelodau'n cael cyfle i gwestiynu'r Cynghorwyr, aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y cyfarfod; a byddai'r Aelodau'n ystyried unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr, aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury i wneud datganiad a dywedodd ei fod am ddiolch i'r Pwyllgorau a'r swyddogion am drefnu'r cyfarfod. Pwysleisiodd na fyddai penderfyniad yn cael ei wneud heddiw, ond roedd yn gyfle i edrych ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, gwrando ar gyflwyniad gan swyddogion, ac edrych at ymatebion i'r arolwg a gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd fod barn gyffredinol glir o ran peidio â bod o blaid un elfen benodol o'r GDMC; oherwydd y farn gyffredinol, diystyriwyd gwahardd cŵn o gaeau â marciau; ac ychwanegwyd bod hyn yn parhau i fod yn fater ond bod angen cefnogaeth y gymuned ehangach ac mae'r Cyngor yn cydnabod hynny. Ychwanegodd y byddai cyfle arall i wneud penderfyniadau pan â'r GDMC i'r Cabinet. Esboniodd fod cefnogaeth eang am sawl elfen o'r ymgynghoriad oedd y pwnc y ymgynghorwyd arno fwyaf eang heblaw am gyllidebau a bod y nifer mwyaf o ymatebion wedi'u derbyn a

bod gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol wedi bod ar ei uchaf; ac roedd am ddiolch i swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod yr hyn oedd yn amser benodol anodd iddo fe a'i deulu.

Gwahodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael i wneud datganiad a diolchodd y Cynghorydd i'r Pwyllgorau am y cyfarfod. Dywedodd fod problemau gyda chaeau chwaraeon a bwriad yr ymgynghoriad oedd meddwl am ffyrdd o wneud pethau'n well; roedd yn hapus gwrandao ar dystiolaeth ac y byddai'n myfyrio arno ac yn dod yn ôl gyda rhywbeth a fyddai o fudd i bawb.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar yr ymgynghoriad ar y GDMC ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Mynegodd yr Aelodau eu siom nad oedd aelodau'r cyhoedd yn gallu gofyn cwestiynau yn y cyfarfod.

Cyfeiriodd yr Aelodau at flaendudalen y ddogfen ymgynghori a gofynnion nhw a oedd yn ddilys. Cytunodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant fod y dewis o'r flaendudalen yn gamgymeriad a dywedodd ei fod wedi ymddiheuro amdani ac yr hoffai ymddiheuro eto gan mai ei gyfrifoldeb ef oedd e.

Nododd yr Aelodau fod hysbysiadau wedi'u harddangos yn y tri chlwb chwaraeon a gofynnion nhw a oes unrhyw hysbysiadau wedi'u rhoi i filfeddygon ac ati. Dywedodd yr Aelodau fod Atodiad C yr adroddiad yn rhestru'r bobl y cysylltwyd â nhw; ni chysylltwyd â milfeddygon ond cysylltwch â llawer o bobl eraill.

Gan gyfeirio at y datganiadau ysgrifenedig, nododd yr Aelodau fod lluo o wybodaeth na ymddangoswyd yn y ddogfen ymgynghori a gofynnion nhw pa wybodaeth y edrychwyd arno cyn y cafodd yr ymgynghoriad ei anfon allan ac a oedd unrhyw o'r syniadau wedi'u hystyried. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glan, Ailgyrchu a'r Amgylchedd fod yr ymgynghoriad i bobl y Ddinas, byddai barn pob person yn cael ei ystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Ychwanegodd y gall bob amser wneud pethau'n well wrth edrych yn ôl ond nid oeddent yn cau'r drws ar unrhyw beth, byddent yn ystyried pob barn, edrych ar gostau ac yna'n penderfynu ar ffordd ymlaen. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant mai dyna oedd y rheswm dros sefydlu cyfeiriad e-bost ar gyfer yr ymgynghoriad ac adran sylwadau i bobl gyflwyno eu syniadau; dywedodd y byddai'r broses hon yn parhau ar ôl yr ymgynghoriad. Credodd i'r ymgynghoriad ysgogi grwpiau o bobl na chwason nhw eu cynrychioli digon yn y gorffennol, a bod gwersi wedi'u dysgu o'r ymgynghoriad; byddai unrhyw syniadau a fyddai'n helpu yn cael eu hystyried ac roedd hyn mewn perthynas â sbwriel yn ogystal â baw cŵn.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd yn rhesymol newid unrhyw fanylion yr ymgynghoriad yn ystod y broses gan gyfeirio'n benodol at gwestiwn 11 a gofynnion nhw a ellir herio hyn yn gyfreithlon. Dywedodd y swyddogion y byddent yn mynd â chwestiwn â nhw. Ychwanegodd y swyddogion fod yr ymgynghoriad yn ymwneud â chael barn, roedd sawl ymholiad yn ystod y broses ac roedd angen eglurdeb ar rai manylion felly roedd sawl mân newid wedi bod ond o ran sefyllfa gyfreithiol hyn, byddai'n rhaid ceisio barn gan gydweithwyr cyfreithiol.

Gan gyfeirio at gwestiwn 11, credodd yr Aelodau fod 3 phwynt nad oedd pobl yn gallu ateb yn negyddol iddynt ac i bobl ei chael yn gwestiwn anodd ei ateb.

Gofynnodd yr Aelodau sut cafodd y cwestiwn ei gyfrifo o ran meysydd chwarae a chaeau. Dywedodd yr Aelodau Cabinet dros Hamdden a Diwylliant ei fod yn cymryd cyfrifoldeb ac na ddylai fod wedi grwpio'r cwestiwn yn y ffordd dan sylw. Fodd bynnag ychwanegodd mai'r canlyniad oedd bod ganddynt gonsensws cryf ar 5 o'r 6 chynnig. Dywedodd ei fod wedi ymddiheuro am y ddelwedd a ddefnyddiwyd ar y flaendudalen ac am wahanu cwestiwn 11 ond amddiffynnodd yr hyn oedd yn credu ei fod yn ymarfer gwerth chweil.

Credodd yr Aelodau nad yw'n fater yn ymwneud â meysydd chwarae a chaeau chwaraeon oedd e a'i bod yn broblem mewn rhai wardiau'n benodol felly roedd trigolion yn ddiolchgar am yr ymgynghoriad.

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb yn y llu o syniadau a gafwyd yn sgil yr ymgynghoriad ac roeddent yn awyddus i ddysgu mwy am Gerdded Cŵn Gwyrdd a Fe'i gwelwch, Fe'i adroddwch. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant nad oes angen llyfnhau'r mecanwaith yn fwy, ar hyn o bryd mae 1 o bob 5 adroddiad ar faw cŵn yn ymwneud â pharciau; fel arfer mae clybiau yn glanhau ar ôl eu hunain ac nad ydynt yn adrodd y mater. Roedd y Cyngor yn awyddus i hyrwyddo mynd â chŵn am dro fel gweithgaredd i bawb.

Nododd yr Aelodau fod gwersi i'w dysgu o broses yr ymgynghoriad a chredon nhw y gallai pobl fod wedi profi'r arolwg cyn iddo gael ei gyhoeddi a byddai unrhyw ymholiadau megis gyda chwestiwn 11 fod wedi cael eu codi.

Roedd pryderon gan yr Aelodau fod dryswch ynghylch cŵn yn gallu defnyddio caeau chwaraeon a bod rhai pobl yn cael eu herio'n ymosodol, gan ddweud bod angen gwell gyfathrebu ar y sefyllfa gyfredol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant, pan gaiff y GDMC terfynol ei awgrymu, y bydd yn ei gwneud yn glir iawn yr hyn a ganiateir a'r hyn na chaniateir.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y 500 o gwynion a gofynnnon nhw am eglurhad ar hyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod paragraff 15 yr adroddiad yn esbonio hyn ond nodwyd nad cwynion am barciau'n unig oedd y 500 o gwynion ond roedd cyfeiriad at barciau felly gellir gweld y dryswch.

Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am nifer y dirwyon a gyhoeddwyd yn ymwneud â chaeau chwaraeon â marciau. Dywedodd y swyddogion y cyhoeddwyd 49 dirwy yn 2015/16, yr oedd 11 ohonynt gan Geidwaid Parciau; yn 2016/17 – cyhoeddwyd 28 dirwy, 24 gan Geidwaid Parciau; yn 2017/18 – cyhoeddwyd 19 dirwy, 16 gan Geidwaid Parciau. Nid oedd unrhyw ffigurau ar gyfer y flwyddyn gyfredol hyd yn hyn ond nid oedd wedi gwella'n fawr. Nododd swyddogion fod y ffigurau'n eithriadol isel a'u bod yn edrych ar ffyrdd o newid gorfodi, gan gynnwys cael ffordd o glirio baw cŵn. Nodwyd fod angen diweddarau'r holl is-ddeddfau; roedd angen gwella addysg a gorfodi mewn Parciau a thargedu ardaloedd penodol trwy ddefnyddio gwybodaeth gan y cyhoedd sy'n creu'r cwynion.

Ceisiodd yr Aelodau eglurhad ar yr hyn sy'n gwneud cae chwarae â marciau a dywedwyd wrthynt ei fod yn gae â marciau y mae pobl yn chwarae arno ac na ddylai'r tymhorau effeithio arno.

Trafododd yr Aelodau pryderon iechyd a nodon nhw fod hyn yn ymwneud â chadnoaid dinesig yn ogystal â chŵn, a gofynnnon nhw sut roedd y Cyngor yn mynd i'r

afael â hyn. Ailadroddodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant nad gyda'r anifeiliaid oedd y broblem ond gyda pherchenogion cŵn anghyfrifol, os oes problemau penodol mewn ardaloedd penodol wedyn anogir pobl i'w hadrodd a bydd y Cyngor yn eu glanhau.

Nododd yr Aelodau fod llawer o syniadau da wedi'u cael yn sgil yr ymgynghoriad. Cydnabu'r Aelodau fod goblygiadau i'w hystyried ynghylch hyfforddiant, y gyfraith ac adnoddau. Nododd yr Aelodau fod pryderon ynghylch agweddau cyfredol ar reoli parciau megis Biniau a gwacau biniau a gofynnon nhw beth oedd y cynlluniau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Dywedodd y swyddogion fod y Cabinet wedi buddsoddi £120k er mwyn symud/ychwanegu biniau ledled y Ddinas, byddai ar finiau mwy newydd synwryddion i ddangos pa mor lawn ydynt. Gellir gweld y data hwn o bell a byddai'r biniau'n cael eu lleoli mewn lleoliadau allweddol ledled y Ddinas. Roedd angen am wybodaeth well i ddefnyddio adnoddau er mwyn darparu gwasanaeth gwell, roedd hyn eisoes yn digwydd a byddai'n parhau i gael ei adolygu.

Cyfeiriodd yr Aelodau at bwysigrwydd semanteg ac eglurdeb cwestiynau wrth ddylunio'r ymgynghoriad a gofynnon nhw pa brosesu y edrychwyd arnynt o ran fformiwleiddio cwestiynau ac a gafodd y cwestiynau eu profi cyn iddynt fynd yn fyw, oherwydd fel y brifddinas, dylai fod gan Gaerdydd y sgiliau i wneud ymgynghoriadau ystyrllon. Esboniodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant eu bod wedi edrych ar ymgynghoriadau Awdurdodau Lleol eraill, yn ogystal â Chanolfan Ymchwil Caerdydd; roedd Bro Morgannwg wedi defnyddio cwestiynau tebyg iawn yn eu hymgyngoriad hefyd; edrychwyd ar brosesu ac ychwanegwyd yr adran sylwadau a'r cyfeiriad e-bost. O ran semanteg dywedodd yr Aelodau Cabinet fod mai'r brif broblem hon oedd y canlyniad a'r hyn sy'n dod ohono; roedd nifer o bryderon wedi bod a gwrandawyd ar y rhain; roedd pobl o'r farn yr oedd yr ymgynghoriad wedi'i sgiwio ond nid yw hyn yn wir a gwrandawyd ar eu barn, felly yn y bôn gweithiodd yr ymgynghoriad.

Credodd yr Aelodau fod y gymuned mynd â chŵn am dro yn ased enfawr i'r Cyngor yn benodol o ran adrodd a gofynnon nhw sut gellir defnyddio'r broses hon i barhau'r ymgysylltu hwn gyda'r gymuned cerdded cŵn gan obeithio cynyddu ffigurau adrodd. Cefnogodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant y farn hon ar y gymuned cerdded cŵn a dywedodd y byddai'n cyfarfod â nhw eto i symud ymlaen. Byddai'r cyfarfod hwn yn cynnwys clybiau chwaraeon a grwpiau cyfeilion i gydweithio i wneud parciau'n well i bawb.

Gofynnodd yr Aelodau a yw Caerdydd yn unigryw gan fod ganddi gaeau chwaraeon â marciau mewn amgylchedd Dinas a fyddai gorfodi yn gallu cael yr effaith a ddymunir neu a yw gwaharddiad yn gymesur. Esboniodd yr Aelod Cabinet fod yr ymgynghoriad yn trafod ystod eang o gynigion ac ailadroddodd nad oedd penderfyniad wedi'i wneud eto. Roeddent wedi edrych ar yr hyn oedd yn gyfreithiol bosibl o ran caeau â marciau a hefyd ar achosion cyfreithiol ym mwrdeistrefi Llundain; teimlwyd bod y peth gorau i'w wneud oedd ymgynghori ar ystod ehangach o gynigion o yn bosibl, gwrandao ar farn i helpu i ddiffinio GDMC.

Trafododd yr Aelodau yr anawsterau gyda gorfodi o ran perchenogion anghyfrifol yn benodol y rheiny sy'n cerdded eu cŵn yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos. Nododd yr Aelodau y byddai'r GDMC yn ataliad ac y gallai arwyddion a chyfathrebu gwell helpu i addysgu ac atal.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y datganiadau ysgrifenedig a nodon nhw fod llawer o ffyrdd o fynd i'r afael â materion, gan ofyn pa argymhellion fyddai'n cael eu gweithredu i leihau baw cŵn ac a yw GDMC yn rhagdybio canlyniad yr ymgynghoriad. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glan, Ailgylchu a'r Amgylchedd y byddai GDMC yn golygu newid deddfwriaeth ac y byddai'n creu offeryn i gynorthwyo Awdurdodau Lleol a'r Heddlu i ddelio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol; rhaid iddo fod yn gymesur ac amddiffyn y Ddinas rhag baw cŵn. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant fod gwahanol is-ddeddfau mewn gwahanol barciau ledled y Ddinas, mae GDMC yn golygu bod modd eu rhoi nhw i gyd dan un ddeddf gan ei gwneud yn haws i'w rheoli. Ailadroddodd y Swyddogion fod addysg, yn ogystal â gorfodi, yn bwysig a bod digwyddiadau ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal mewn Parciau.

Trafododd yr Aelodau finiau gwastraff cŵn a'r ffaith nad yw'r rhain yn cael eu gwacau'n aml, mae bagiau'n cael eu gadael o gwmpas biniau llawn. Dywedodd y swyddogion bod y timau'n cael eu cyfarwyddo i lanhau o gwmpas y biniau pan gânt eu gwacau. Hefyd mae'n bwysig pwysleisio y gellir rhoi gwastraff cŵn mewn biniau gwastraff cyffredinol. Nododd yr Aelodau bod 22 Swyddog a all orfodi. Gallant addysgu a glanhau hefyd. Roedd y Swyddogion yn chwilio am ffyrdd o ddefnyddio adnoddau gan gynnwys amserlenni symudol.

Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am a oedd copïau o'r ymgynghoriad mewn llyfrgelloedd a Hybiau a dadansoddiad o nifer yr ymatebion a gyflwynwyd ar-lein ac ar bapur. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant fod posterï a chopïau caled o'r ymgynghoriad ym mhob llyfrgell a Hyb ledled y Ddinas gyda help ar gael i'w gwblhau. Nid oedd gan swyddogion y dadansoddiad o sut cafodd yr ymatebion u cyflwyno ond dywedwyd y gallent gael y wybodaeth hon os oes angen. Gofynnodd y Cadeirydd am gadarnhad bod ym mhob llyfrgell a Hyb copïau caled o'r ymgynghoriad. Dywedodd yr Aelodau Cabinet y byddai'n rhoi'r cadarnhad hwn ac y byddai'r mater yn dod yn ôl ar gyfer cyn-benderfyniad hefyd.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd Caerdydd wedi edrych ar Awdurdodau Lleol eraill ac a yw'n gorfodi ar bobl nad ydynt yn cludo bagiau. Dywedodd y Swyddogion ei bod wedi edrych arnynt ac yn rhan o'r cynnig mae wedi edrych ar RCT ar gyfer llawer o agweddau gan gynnwys ymgynghori gan eu bod wedi lleihau nifer y cwynion am faw cŵn.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Driscoll a Dilwar Ali, Paul Smith, Penny Bowers, Jeremy Sparkes, Peter Jones a Nathan Foy i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Driscoll i wneud datganiad a diolchodd i'r Aelodau a'r Swyddogion am hwyluso'r cyfarfod, gan roi cyfle iddo fe ac i'r rhandeiliaid eraill i siarad. Dywedodd ei fod wedi chwarae ar y rhan fwyaf o gaeau chwaraeon yng Nghaerdydd, ei fod yn cefnogi'r clybiau a'i fod yn deall eu pryderon ond mae'n deall yn llwyr bryderon perchenogion cŵn hefyd. Nododd fod y rhan fwyaf o'r cwynion wedi'u derbyn ynghylch ymylon a phalmentydd, ond roedd angen mynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â chaeau hefyd. Credodd fod y grŵp gweithredu cŵn wedi bod yn wych ac yr oedd yn hollbwysig gweithio gydag ef a phobl eraill wrth fynd i'r afael â'r problemau. Ychwanegodd fod gwaith addysg yn bwysig ac y gellir dysgu gwersi o'r gwaith wedi'i wneud gyda Sbwriel a hefyd o waith awdurdodau lleol eraill lle y dylid edrych ar arfer gorau. Daeth i ben trwy ddweud ei fod wedi cael llawer o

awgrymiadau gan drigolion gan gynnwys cyfyngiadau tymhorol ar bediau sblasio mewn parciau.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cyngorydd Dilwar Ali i wneud datganiad ac yn rhan ohono trafododd 'Caring for K9's', gan esbonio bod y grŵp hwn yn cynnwys Cynghorwyr a phartneriaid gyda'r nod o wella'r broblem gyda baw cŵn a gwella llesiant. Mae'r grŵp yn casglu gwybodaeth o lawer o ardaloedd a byddai'n cynnal cynhadledd yn y Gwanwyn ac yn adrodd yng nghyfarfod y Cabinet. Nododd materion megis y ffaith bod rhaid caniatáu i gŵn redeg. Dylai man cyhoeddus fod yn ddiogel i bawb a rhaid i berchenogion â sawl ci fod yn ymwybodol o faw pob ci. Dywedodd fod y grŵp wedi'i dafodi ar y cyfryngau cymdeithasol ond ailadroddodd nad pobl sy'n casáu cŵn oeddent. Roeddent yn pryderu am les anifeiliaid a dylai'r GDMC amddiffyn y cyhoedd a galluogi pobl i ymarfer cŵn yn gyfrifol.

Gwahoddodd y Cadeirydd Paul Smith i wneud datganiad a dywedodd ei fod yn cytuno gyda'r rhan fwyaf o'r ymgynghoriad heblaw am yr elfen caeau chwaraeon â marciau. Roedd yn falch o weithio gyda'r Cyngor a chael cyfle i fynd â'r neges i'r bobl yn y gymuned perchenogion cŵn ehangach. Ychwanegodd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi adolygu ei GDMC a dileu'r elfen caeau chwaraeon.

Gwahoddodd y Cadeirydd Penny Bowers i wneud datganiad a dywedodd fod perchenogion cŵn cyfrifol yn parchu GDMCau sy'n gweithio. Roedd Grŵp Gweithredu Cŵn Caerdydd wedi rhoi gwybod i bobl am yr ymgynghoriad ac wedi brwydro'n erbyn yr elfen caeau chwaraeon arfaethedig gyda dadl resymegol ac roedd yn fodlon gweithio gyda'r Cyngor a symud ymlaen gydag ef. Ychwanegodd ei bod yn bwysig bod lleiafswm y perchenogion cŵn sy'n anghyfrifol yn deall y neges trwy addysg a gorfodi, ymgysylltu a strategaeth gyfathrebu gadarn. Dywedwyd wrth yr Aelodau am y Cynllun Cerddwyr Cŵn Gwyrdd a'r ffaith ei fod wedi bod yn llwyddiannus ac roedd llawer o berchenogion cŵn oedd yn awyddus i helpu gyda chlybiau chwarae ac i edrych ar y mater yn fwy cyfannol.

Gwahoddodd y Cadeirydd Jeremy Sparkes i wneud datganiad ac esboniodd ei fod yn berchennog ci sy'n byw, gweithio a chwarae chwaraeon yng Nghaerdydd. Nododd y balchder a grybwyllwyd am ymgynghoriad llwyddiannus ond credodd, gan fod 1 o bob 3 chartref yn cynnwys perchenogion cŵn, y gallai'r ymateb fod wedi bod yn llawer uwch. Credodd y gallai'r ymgynghoriad fod wedi cyrraedd llawer mwy o bobl ac y cafodd rhai pobl y effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol eu heithrio. Dywedodd fod gwybodaeth wedi'i chael trwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi datgelu bod data wedi'i roi i'r Cabinet yn anghywir a phwysleisiodd pwysigrwydd data perthnasol, gonest, dibynadwy a chadarn. Credodd fod y risg o 'Toxicarias' yn isel os ydych yn byw yng Nghaerdydd ond mae sylwadau cas wedi'u gwneud tuag at bobl.

Gwahoddodd y Cadeirydd Peter Jones i wneud datganiad a dywedodd ei fod yn cynrychioli Guide Dogs Cymru. Credodd fod y cynigion yn anghymesur tuag at bobl anabl. Roedd yn falch o weld bod Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i wneud ond credodd y dylai hyn fod wedi cael ei wneud cyn i'r broses ymgynghori ddechrau. Ychwanegodd hefyd bod angen i arwyddion mewn parciau fod yn hygyrch i bobl ag anabledau, nid yn unig bobl sydd â nam ar eu golwg.

Gwahoddodd y Cadeirydd Nathan Foy i wneud datganiad ac esboniodd ei fod yn berchennog ci tywys ac mae gan gŵn o'r fath rôl i gynorthwyo pobl pan fônt yn wynebu heriau. Pwysleisiodd bwysigrwydd eithrio cŵn tywys mewn unrhyw gynnyg a gyflwynir gan nad ydynt yr un peth â chŵn sy'n anifeiliaid anwes. Roedd yn

ymwybodol o berchenogion cŵn tywys yr oedd pobl wedi dweud pethau wrthynt wrth adael i'w cŵn redeg yn rhydd. Esboniodd fod llawer o berchenogion cŵn tywys yn hŷn ac yn cael eu dychryn pan fo pobl yn ymosodol ar lafar tuag atynt. Pwysleisiodd bwysigrwydd gadael i gŵn tywys redeg yn rhydd fel rhan bwysig o'r hyn maent yn ei wneud ac mae angen lleoedd hygyrch arnynt i allu gwneud hyn. Byddai cyfyngiadau mawr ar berchenogion cŵn tywys yn cael effeithiau enfawr arnynt a'u teuluoedd gan fod cŵn tywys yn galluogi deinameg teulu megis cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl dystion am eu datganiadau a gwahoddodd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Roedd yr Aelodau yn pryderu bod canfyddiad bod penderfyniadau eisoes wedi'u gwneud a theimlon nhw ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn gwneud y sefyllfa'n glir.

Nododd yr Aelodau bod 8 GDMC ar waith ledled Cymru a gofynnion nhw sut mae'r rheiny sydd wedi eu gorfodi ar gaeau â marciau wedi gweithio. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr holl GDMCau wedi'u rhoi ar waith yn yr 18 mis diwethaf. Byddai cwestiynau'n cal eu gofyn am yr effaith a hefyd byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda pherchenogion cŵn i gael gwybod a oedd unrhyw newidiadau wedi bod i le/sut maent yn mynd â'u cŵn am dro gan gynnwys am faint maent yn gwneud hynny.

Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am bobl sydd wedi'u heithrio o'r ymgynghoriad a dywedwyd wrthynt fod grwpiau amrywiol na cysylltwyd â nhw megis y PDSA, llawer o filfeddygon a sawl lletywr a cyndy cŵn. Ychwanegodd Jeremy Sparkes ei fod yn derbyn bod problemau cyllidebol ond byddai cynnwys y grwpiau hyn wedi bod o fantais. Dywedodd Penny Bowers fod llawer o ardaloedd yng Nghaerdydd fel cymunedau lle bo pawb yn adnabod ei gilydd. Roeddent wedi cysylltu â phawb yr oeddent yn gwybod bod ci gyda nhw, wedi dosbarthu taflenni ac wedi annog pobl i gwblhau'r ymgynghoriad, gan fynegi eu barn heb bregethu.

Roedd yr Aelodau am longyfarch i Grŵp Gweithredu Cŵn Caerdydd gan ddweud ei fod wedi bod yn rhagorol mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys yr holl wybodaeth a gasglwyd gan Gynghorau amrywiol. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw fesurau arbennig y byddent yn eu hystyried yn rhai sydd y fwyaf fanteisiol i fynd ymlaen â nhw. Dywedodd Penny Bowers fod y cynllun Cerddwyr Cŵn Gwyrdd yn sefyll allan. Roedd wedi dala dychymyg pobl. Gall unrhyw un fod yn rhan ohono. Mae'n ddisglair ac yn lliwgar ac yn denu pobl. Ychwanegodd na fyddai unrhyw fesur yn gweithio pe bai'n cael ei ynysu. Nododd fod pobl wedi sôn am beiriannau dosbarthu bagiau ond nid oedd y grŵp yn awyddus i beidio â llygru'r parciau gyda pheiriannau. Nododd fod DNA ar y camau cynnar iawn a'i fod yn eithaf drud felly byddai'n annog pobl i gymryd rhan yn y Cynllun Cerddwyr Cŵn Gwyrdd. Dywedodd Jeremy Sparkes fod gwahanol broblemau mewn gwahanol rannau o Gaerdydd, felly roedd yn bwysig defnyddio data perthnasol i lywio gorfodi effeithiol. Esboniodd Paul Smith fod gan Gyngor Conwy Gynllun Cennad Ieuencid sy'n gweithio yn y parciau, gan bwysleisio ei bod yn bwysig cael y genhedlaeth nesaf i weithio ar gynlluniau o'r fath.

Daeth y Cynghorydd Driscoll i ben gan ddweud bod y wybodaeth gan Grŵp Gweithredu Cŵn Caerdydd wedi bod yn wych. Ychwanegodd ei bod yn bwysig defnyddio gorau'r hyn mae pobl eraill yn ei wneud o ran mynd i'r afael â baw cŵn; a phwysleisiodd bwysigrwydd gwacau biniau ac ardaloedd amgylchynol.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad at y cyfarfod.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i gyfleu sylwadau'r pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

9 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25 pm